At ddefnydd staff yn unig:	Dyddiad ac Amser:		Lleoliad	

Ffurflen pleidlais bost

Darllenwch yr wybodaeth ar dudalen 2 cyn llenwi'r ffurflen hon.
Bydd eich pleidlais bost/pleidleisiau post yn cael ei gwrthod/eu gwrthod os na fyddwch yn llenwi'r ffurflen hon yn llawn.

Adran 1

1. A ydych yn cyflwyno eich pleidlais bost eich hun?	Ydw/Nac ydw
2. A ydych yn cyflwyno pleidleisiau post etholwyr eraill? *(os ydych yn ateb 'Nac ydw' ewch i gwestiwn 3)*	Ydw/Nac ydw
a. Os ydych yn ateb 'Ydw', faint o etholwyr eraill? *(yr uchafswm fesul etholiad yw 5 yn ogystal â'ch un chi - gweler nodyn 1 ar dudalen 2))*	
3. Ydych chi'n ymgyrchydd gwleidyddol? *(gweler nodyn 2 ar dudalen 2) (Os ydych yn ateb 'Nac ydw' ewch i gwestiwn 4)*	Ydw/Nac ydw
a. Os ydych yn ateb 'Ydw' a'ch bod yn cyflwyno pleidleisiau post etholwyr eraill, a yw'r pleidleisiau post i gyd yn perthyn i berthnasau agos neu bobl yr ydych yn darparu gofal rheolaidd ar eu cyfer?	Ydyn/Nac ydyn
4. Sawl amlen sy'n cynnwys pleidleisiau post ydych chi'n eu cyflwyno? *(gan gynnwys eich un chi, os yw'n berthnasol)*	

Adran 2

5. Enw	
6. Cyfeiriad	
7. Os ydych yn cyflwyno pleidleisiau post etholwyr eraill, rhowch reswm pam	

8. Rwyf yn datgan, yn gyfan gwbl, nad wyf wedi cyflwyno pleidleisiau post ar gyfer mwy na'r nifer o etholwyr a ganiateir, naill ai mewn unrhyw orsaf bleidleisio neu i'r Swyddog Canlyniadau, yn yr etholiad hwn/etholiadau hyn, a hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y canlynol yn wir amdanaf: *(dilëwch (a) neu (b) fel y bo'n briodol)*

(a) **nid wyf yn ymgyrchydd gwleidyddol** lle y mae'n drosedd i mi drin pleidleisiau post penodol neu

(b) **rwyf yn ymgyrchydd gwleidyddol** ac rwyf ond wedi cyflwyno fy mhleidlais bost i a/neu bleidlais bost perthynas agos, neu rywun yr wyf yn darparu gofal rheolaidd ar ei gyfer.

9. Llofnod		**10.** Dyddiad	

Adran 3 I'w chwblhau gan y Swyddog Perthnasol

Rwyf i, *(rhowch enw)*……., sef y Swyddog Perthnasol yn y lleoliad canlynol …… ……*(ychwanegwch enw gorsaf bleidleisio neu swyddfeydd y cyngor):*

A. yn fodlon bod y ffurflen hon wedi'i chwblhau'n gywir ac yn darparu'r wybodaeth yn ôl yr angen. Nid wyf yn amau bod mwy na'r nifer a ganiateir o bleidleisiau post wedi'u cyflwyno, ac nid wyf ychwaith yn amau bod yr unigolyn a enwir uchod yn ymgyrchydd gwleidyddol sy'n cyflawni trosedd drwy gyflwyno'r pleidleisiau post. Felly mae'r bleidlais bost/pleidleisiau post a gyflwynwyd i'w derbyn ☐
(ticiwch os yw'n berthnasol ar gyfer pob pleidlais bost a gyflwynwyd)

B. yn gwrthod y bleidlais bost/pleidleisiau post atodedig oherwydd bod y sawl sy'n ei chyflwyno/eu cyflwyno: *(ticiwch bob rheswm sy'n berthnasol)*

i. heb gwblhau'n llawn y ffurflen pleidlais bost *(anghyflawn)* ☐

ii. wedi cyflwyno pleidleisiau post ar ran mwy na'r nifer o etholwyr a ganiateir ☐

iii. yn ymgyrchydd gwleidyddol na chaniateir iddo drin y pleidleisiau post ☐

iv. heb gwblhau'r ffurflen pleidlais bost *(gadawyd y ddogfen pleidleisio drwy'r post ar ôl)* ☐

Cyfanswm y pleidleisiau post a wrthodwyd

Os ydych wedi derbyn pleidlais bost/pleidleisiau post yr unigolyn ei hun, ticiwch yma ☐

Gwybodaeth am ddychwelyd pleidleisiau post

Defnyddir y term ‘pleidlais bost/pleidleisiau post’ ar y ffurflen hon ac mae’n golygu dogfen pleidleisio drwy’r post fel papur pleidleisio drwy’r post, datganiad pleidleisio drwy’r post neu ddogfen arall sydd wedi’i rhoi i berson at ddiben galluogi’r person i bleidleisio drwy’r post mewn etholiad perthnasol.

1. Faint o bleidleisiau post y gallaf eu cyflwyno?

Gallwch gyflwyno eich pleidlais bost eich hun a phleidlais hyd at 5 etholwr arall ym mhob etholiad.

Os cynhelir etholiadau lluosog, a bod pleidleisiau post ar gyfer yr etholiadau hyn wedi'u cyhoeddi ar wahân, rhaid i'r pleidleisiau post a gyflwynir fod yn perthyn i gyfanswm o 5 etholwr arall yn unig, fodd bynnag efallai y bydd nifer o bleidleisiau post fesul etholwr.

Os ydych yn gweithredu fel pleidleisiwr post drwy ddirprwy, caiff unrhyw bleidleisiau post drwy ddirprwy y byddwch yn eu cyflwyno eu hystyried yn rhai eich hun, ac mae cyfanswm nifer yr etholwyr eraill y gallwch gyflwyno pleidleisiau post ar eu cyfer yn cael ei leihau gan nifer y pleidleisiau post drwy ddirprwy yr ydych yn eu cyflwyno. Er enghraifft, os byddwch yn cyflwyno 2 bleidlais bost drwy ddirprwy, gallwch gyflwyno pleidleisiau post ar gyfer hyd at 3 etholwr arall.

Os byddwch yn cyflwyno, neu'n cael eich amau o gyflwyno, pleidleisiau post ar ran mwy o etholwyr nag a ganiateir, ar gyfer un etholiad, bydd pob pleidlais bost arall a geir yn cael ei gwrthod ac eithrio eich rhai chi.

2. Trin pleidleisiau post gan ymgyrchwyr gwleidyddol

Mae Adran 112A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a pharagraff 9A o Atodlen 2 Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012, yn ei gwneud yn drosedd i ymgyrchydd gwleidyddol mewn etholiad trin pleidlais bost/pleidleisiau post person arall, **oni bai** bod y person hwnnw’n berthynas agos neu’n rhywun y mae ef neu’r sefydliad sy’n ei gyflogi neu’n ymgysylltu ag ef yn darparu gofal rheolaidd ar ei gyfer.

Priod, partner sifil, rhiant, nain/mam-gu neu daid/tad-cu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres yw perthynas agos. Mae dau berson sy'n byw gyda'i gilydd fel pe baent yn bâr priod neu'n bartneriaid sifil yn cael eu trin fel perthnasau agos.

Os bydd ymgyrchydd gwleidyddol yn cyflwyno, neu'n cael ei amau o gyflwyno, pleidleisiau post unrhyw unigolyn arall nad yw'n berthynas agos neu rywun y mae'n darparu gofal ar ei gyfer, caiff y pleidleisiau post hynny eu gwrthod. Bydd yr ymgyrchydd gwleidyddol yn dal i allu cyflwyno’i bleidlais bost/pleidleisiau post ei hun.

Diffinnir ymgyrchydd gwleidyddol yn y ddeddfwriaeth hon fel person sydd yn:

(a) ymgeisydd yn yr etholiad;

(b) asiant etholiadol ymgeisydd yn yr etholiad;

(c) is-asiant asiant etholiadol yn yr etholiad;

(ch) cael ei gyflogi neu yr ymgysylltir ag ef gan berson sy'n ymgeisydd yn yr etholiad at ddibenion gweithgareddau'r person hwnnw fel ymgeisydd;

(d) aelod o blaid wleidyddol gofrestredig sy'n cyflawni gweithgaredd sydd wedi'i gynllunio i hyrwyddo canlyniad penodol yn yr etholiad;

(dd) cael ei gyflogi neu yr ymgysylltir ag ef gan blaid wleidyddol gofrestredig mewn cysylltiad â gweithgareddau gwleidyddol y blaid;

(e) cael ei gyflogi neu yr ymgysylltir ag ef gan berson a restrir yn (a) i (dd) uchod, i gyflawni gweithgaredd sydd wedi'i gynllunio i hyrwyddo canlyniad penodol yn yr etholiad;

(f) cael ei gyflogi neu yr ymgysylltir ag ef gan berson o fewn paragraff (e) i gyflawni gweithgaredd sydd wedi'i gynllunio i hyrwyddo canlyniad penodol yn yr etholiad;

3. Hysbysiad Preifatrwydd

Dim ond at ddibenion etholiadol bydd y rheolwr data yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych ar y ffurflen hon, a bydd yn edrych ar ôl eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel, gan ddilyn deddfwriaeth diogelu data. Ni fydd y rheolydd data yn rhoi data personol amdanoch chi, na’r wybodaeth bersonol y gallech ei darparu am bobl eraill, i unrhyw unigolyn na sefydliad arall, oni bai bod hynny’n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Y sail gyfreithiol dros gasglu’r wybodaeth yn y ffurflen hon yw ei bod yn angenrheidiol i gyflawni tasg yr ymgymerir â hi er budd y cyhoedd, ac er mwyn arfer awdurdod swyddogol a roddir i’r Swyddog Canlyniadau fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a’r rheoliadau cysylltiedig.

Y Swyddog Canlyniadau yw'r Rheolydd Data. I gael rhagor o wybodaeth am brosesu data personol, dylech gyfeirio at eu hysbysiad preifatrwydd ar eu gwefan.